# CYNLLLUN LLEIHAU CARBON

Mae RCS wedi ymrwymo i leihau'r effaith a gaiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

Byddwn yn ymdrechu bob amser i wella ein perfformiad yn barhaus er mwyn sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn ystyriaeth hollbwysig ym mhob agwedd ar y sefydliad.

Mae ein Cynllun Lleihau Carbon yn cynnwys manylion am ôl troed carbon ein sefydliad, a hefyd mae'n cadarnhau ein hymrwymiad i leihau allyriadau fel y gellir cyrraedd sefyllfa Sero Net erbyn 2050.

## Ôl Troed Allyriadau Sylfaenol

Allyriadau sylfaenol yw'r pwynt cyfeirio a ddefnyddiwn i fesur i ba raddau rydym yn lleihau ein hallyriadau. Mae'r allyriadau sylfaenol yn cofnodi'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchwyd gennym cyn inni gyflwyno ein strategaeth lleihau allyriadau yn 2022. Aethom ati i lunio llinell sylfaen trwy ddefnyddio data cyn y pandemig er mwyn cael darlun mwy realistig o lefel safonol ein hallyriadau, oherwydd arweiniodd y pandemig at leihad mawr yn ein hallyriadau yn sgil y cyfyngiadau ar deithio a gweithio yn y swyddfa.

| **Blwyddyn Sylfaen: 2019-20** | |
|---|---|
| **ALLYRIADAU** | **CYFANSWM (TCO2E)** |
| Cwmpas 1<br>*Ynni uniongyrchol* | 16,510 |
| Cwmpas 2<br>*Effaith anuniongyrchol o du trydan* | 5,848 |
| Cwmpas 3<br>*(Ffynonellau a Gynhwyswyd)* | N/A |
| **Cyfanswm yr Allyriadau** | **22,358** |

# CYNLLUN LLEIHAU CARBON

## Adrodd am Allyriadau Cyfredol

| **Blwyddyn Adrodd: 2022-23** | |
|---|---|
| **ALLYRIADAU** | **CYFANSWM (TCO2E)** |
| Cwmpas 1<br>*Ynni uniongyrchol* | 12,986 |
| Cwmpas 2<br>*Effaith anuniongyrchol o du trydan* | 3,391 |
| Cwmpas 3<br>*(Ffynonellau a Gynhwyswyd)* | N/A |
| **Cyfanswm yr Allyriadau** | 16,377 |

## Targedau lleihau allyriadau

Er mwyn parhau i wneud cynnydd tuag at gyrraedd sefyllfa Sero Net erbyn 2050, fe wnaethom fabwysiadu targed arbennig, sef lleihau ein hallyriadau i 16,765 erbyn 2027 – lleihad o 25% o gymharu â'n llinell sylfaen. Dengys ein hadroddiad ar gyfer eleni ein bod wedi cyflawni'r targed hwn eisoes yn 2022-23, gan fod cyfanswm ein hallyriadau yn 16,377 – lleihad o 26.75% o gymharu ag allyriadau ein blwyddyn sylfaen. Byddwn yn ceisio lleihau mwy fyth ar yr allyriadau hyn er mwyn cyrraedd 15,650 CO2e neu 30% o'n llinell sylfaen erbyn 2025.

## Mesurau Lleihau Carbon

Ers llinell sylfaen 2020, mae'r prosiectau a'r mesurau rheoli amgylcheddol canlynol wedi'u cwblhau neu eu rhoi ar waith.

- Rydym wedi troi at ddefnyddio dulliau o bell / dulliau cyfunol i gyflawni'r mwyafrif o'n gwasanaethau, gan arwain at leihau milltiroedd busnes.
- Rydym wedi rhoi model gweithio hybrid ar waith, gan arwain at leihau milltiroedd cymudo.

- Rydym wedi gosod Wal Fyw yn ein pencadlys yn y Rhyl.
- Rydym wedi gosod system awyru sy'n fwy effeithlon o ran ynni yn ein pencadlys yn y Rhyl.

**Yn ystod 2022-2023, fe wnaethom y canlynol:**

- Cau ein swyddfa ym Mangor
- Gosod goleuadau LED yn rhannau o'r llawr gwaelod yn Hwb y Rhyl
- Hyrwyddo'r arfer o gyflawni ein gwasanaethau'n ddigidol pan fo modd, ac yn unol â dewis ein cwsmeriaid
- Fe wnaethom gymell ac annog yr arfer o ddefnyddio beiciau a thrafnidiaeth gyhoeddus trwy ddiweddaru ein Polisi Treuliau a thrwy ymuno â chynllun gostyngiadau ar gyfer defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

## Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae ein cynllun gweithredu Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn pennu'r camau a'r gweithgareddau y bwriadwn eu rhoi ar waith yn y dyfodol i ategu'r cynllun Lleihau Carbon hwn. Mae cynllun 2022-3 yn cynnwys y camau hollbwysig a ganlyn:

- Cynnal archwiliad amgylcheddol yn ein pencadlys yn y Rhyl er mwyn gweld pa feysydd y gellir eu gwella
- Rhoi mesurau a chymelliadau ar waith i annog mwy fyth ar yr arfer o ddefnyddio beiciau a thrafnidiaeth gyhoeddus

## Adolygu

Bydd y Cynllun Lleihau Carbon hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan RCS ar www.rcs-wales.co.uk.

### *Cyfrifiadau*

Gwnaed y cyfrifiadau trwy ddefnyddio'r Gyfrifiannell Ôl Troed Carbon BBaCh ar wefan yr Ymddiriedolaeth Garbon.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau | Awdurdodwyd |
|---|---|---|---|
| 2 | Medi 2023 | Diweddariad blynyddol | HOR |